

'Y DDAEAR YW'R HYN SYDD GENNYM I GYD YN GYFFREDIN' — WENDELL BERRY

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 29 Ebrill / Mai 2012 PRIS: £1

# Alban Werdd yn arwain - wrth i Gymru gael ei hatal

## ... SAN STEFFAN YN RHEOLI A PHROTESTIO'N CAEL Y SYLW

ISSN 1755-3504
04
9 771755 350009

► Peter Roderick — Neges i Gynhadledd Rio+20
► Gareth Clubb — Rhaid datganoli ynni i Gymru
► Charlotte Davies — Ffydd a Gwyddoniaeth ynghyd
► Gordon James — Sylw i'r protestio yn lle i'r perygl
► Croesawu Leanne ► Hwyl hydro Talybont-ar-Wysg
YMGYRCH Y DDAEAR - NEWYDDION O BEDWAR BAN

Cefnogi'r Gymraeg
Investing in Welsh

# Y PAPUR GWYRDD

*Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear*



Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1 @btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Hefyd ar Weplyfr / Face-book

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni **Y Papur Gwyrdd** Cyf.)

Argreffir **Y Papur Gwyrdd** yn ddigidol gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


**'Pam dylwn i boeni am genedlaethau'r dyfodol? Beth wnaethon nhw drosto i?'**

Groucho Marx

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Alban Werdd ar y blaen i Gymru Garbon
Leanne i roi ynni newydd i'r Blaid?



Leanne Wood

**4** GOLYGYDDOL
Carbon a'r byd — fel smygu a chancr
Cuddio tu ôl i enw? - Yr *REF*

Logo Maes Gwyrdd

**5** RHYNGWLADOL
**Peter Roderick** — Gwahodd Cynhadledd Rio i barchu ffiniau'r Ddaear



Peter Roderick

**6** CYNULLIAD CENEDLAETHOL
**Gareth Clubb** — Diffyg pwerau'n atal ynni gwyrdd yng Nghymru



**7** **Charlotte Davies** — Gwyddoniaeth a Ffydd ynghyd, i achub y Ddaear

**8** MAES GWYRDD
**Nathan Williams** — Galw pobl Wyrdd Cymru i Brifwyl Bro Morgannwg 2012

**9** YMGYRCHU
**Gordon James** — Protestwyr gaiff sylw er perygl i'r blaned

**10** **Daear-iadur**
Calendr Y Papur Gwyrdd ...

**11** **Y byd a'r aelwyd**
Nid stiwdio teledu yw'r Byd — a'r madfallod pia hi!
**Ennill a Cholli**
Shell yn y Arctig

*MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12*


## Dafydd-Êl i barhau â'i arweiniad Gwyrdd

NEWYDDION da yw bod Dafydd Elis-Thomas yn parhau fel cadeirydd pwyllgor amgylcheddol ein Cynulliad Cenedlaethol, er iddo gael ei symud o'i swydd fel llefarydd Plaid Cymru ar y pwnc oherwydd ei gefnogaeth i'r diwydiant niwclear.

Rhoddodd AS Dwyfor Meirionydd arweiniad gwerthfawr iawn ar faterion y Ddaear ers cael ei apwyntio i'r ddwy swydd. Rydym yn siwr y bydd yn parhau i'n hannog i warchod y Byd fel llefarydd materion gwledig, pysgodfeydd a bwyd.

Pob dymuniad da i'w olynydd fel llefarydd amgylcheddol y Blaid, Llŷr Huws Gruffydd, ac i'r llefarydd ynni ac economi, Alun Ffred Jones.

## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………………..

CYFEIRIAD: ……………………………………………………..

………………………………………. Côd Post……………...

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..

(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**


## Gwefan
# Y Papur Gwyrdd

**Y porth Cymraeg i fudiadau'r Ddaear**

**www.ypapurgwyrdd.com**

**Hefyd ar Weplyfr**
**http://www.facebook.com/pages/Y-Papur-Gwyrdd/**

**ypapurgwyrdd1@btinternet.com**

# YR ALBAN YN ARWAIN GYDAG YNNI GWYRDD — OND BLE MAE CYMRU?

## Leanne i annog chwyldro Gwyrdd?



**LLONGYFARCHIADAU i Leanne Wood ar ddod yn arweinydd Plaid Cymru.**

Bu polisiau Gwyrdd yn ganolog i weledigaeth Leanne yn ystod ei hymgyrch gan gynnig ffyrdd newydd a chyffrous i'r Blaid a Chymru ymateb i broblemau economaidd ac amgylcheddol.

Yn yr Hystings yng Nghastell-nedd bu Leanne, a'r ymgeiswyr eraill, Elin Jones a Dafydd Elis-Thomas, yn gytun mai newid hinsawdd oedd y broblem fwyaf sy'n wynebu'r Ddaear.

Edrychwn ymlaen at arweiniad cryf ar y pwnc.

## Arbrawf $CO_2$ yn Aberddawan

CAFODD Y Papur Gwyrdd ddatganiad gan gwmni RWE npower, perchnogion Pwerdy Aberddawan, y bydd safle arbrofol i geisio dal a storio $CO_2$ o'r glo a losgir yno yn weithredol erbyn diwedd mis Mawrth.

Bydd y safle'n cynhyrchu 3MW o drydan. Mae'r pwerdy ei hun yn cynhyrchu 1500MW. Lansiwyd y prosiect yn 2009.

***"BETH rydyn ni'n gynnig yw'r uchelgais a'r arweinyddiaeth i wneud yr Alban yn Bwerdy Gwyrdd i gyfandir Ewrop"***

– Alex Salmond, Prif Weinidog Llywodraeth SNP yr Alban

## Edmygu llwyddiant yr Alban Werdd

TRWY ymweld â'r Alban, mae Gweinidog Amgylchedd Cymru, John Griffiths, wedi gweld sut mae pobl y wlad honno'n elwa o lwyddiant ynni gwynt.

"Roedd yn ddiddorol iawn i ymweld â ffarm wynt Whitelee a gweld cymaint o drydan gwyrdd, glan sy'n cael ei gynhyrchu yno," meddai Mr Griffiths.

"Mae Whitelee yn enghraifft ardderchog o ynni adnewyddol a thwristiaeth a rheolaeth dir gynaladwy yn gweithio law yn llaw er budd y gymuned ehangach."

Roedd y Gweinidog wedi cwrdd â John Swinney, Ysgrifennydd yr Alban dros Gyllid, Cyflogaeth a Thwf Gynaladwy.

Bu'n holi Mr Swinney ynglŷn â sut mae'r system cynllunio a chaniatâd ynni yn gweithio yn yr Alban gan obeithio dysgu sut i hybu a chyflymu prosiectau ynni adnewyddol yng Nghymru.

Mynnodd Mr Griffiths: "Mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o sicrhau bod Cymru'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn ac yn cefnogi datblygiad economi llewyrchus, carbon isel."



Ffarm Whitelee, y ffarm wynt fwyaf ar dir Ewrop — ar Waun Eaglesham ger Glasgow: 140 o dyrbinau gwynt, llwybrau cerdded a beicio, a 100,000 o ymwelwyr y llynedd

# Carbon brwnt yn ben yng Nghymru

## Mwy o lo brig, ffracio nwy a throi glo yn nwy dan ddaear

**WRTH i brotestwyr ddal tyrbinau gwynt glan yn ôl yng Nghymru, mae cynlluniau ar gyfer dau safle glo brig brwnt newydd ar gerdded ynghyd â cheisiadau i fwrw ymlaen gyda ffracio nwy yng ngogledd ddwyrain a de'r wlad ac i ryddhau nwy trwy losgi glo dan Fae Abertawe.**

Ar hyn o bryd, does dim technoleg ar gael ar raddfa fasnachol i atal y $CO_2$ difrodol i'r Ddaear a ryddheir wrth droi'r tanwyddau hyn yn drydan.

O ran glo brig, mae'r gorfforaeth Miller Argent sydd eisoes a safle glo brig anferth yn Ffos-y-fran uwch ben Merthyr Tudful wedi cyhoeddi eu bod ar fin cyflwyno cais cynllunio i gloddio twll i godi mwy eto o lo am 15 mlynedd o waun Nant Llesg rhwng Dowlais a Fochriw.

Bydd y cyfan o'r waun, gan gynnwys Pwll Raslas hyfryd, yn diflannu – yng ngolwg cartrefi pobl Fochriw.

Mae Nant Llesg yn ychwanegol at gynllun gwahanol i agor safle glo brig yn Llandybie yng ngorllewin maes glo'r de.

Yn Abertawe, clywodd 80 o bobl yng Nghanolfan yr Amgylchedd am fwriad cwmnïau i dyllu am nwy trwy ddull difrodol dadleuol ffracio ledled hen feysydd glo de a gogledd ddwyrain Cymru — ac yn Lloegr a'r Alban.

Clywyd hefyd am gynllun i dyllu dan ddyfroedd Bae Abertawe er mwyn troi glo yn nwy trwy dechnoleg fudlosgi.

Os caniateir ffracio, fe geir cannoedd o safleoedd tyllu.

Wedi protestio effeithiol, gwrthodwyd cais ffracio gan Gyngor Bro Morgannwg. Y bwriad tebyg yn Abertawe yw ffurfio Grŵp Na i Ffracio!

► Mae Llywodraeth San Steffan dan bwysau i gyhoeddi moratoriwm ar ffracio nes ceir eglurhad ar beryglon y dechnoleg newydd hon.

## Hen bryd i rieni bryderu — er budd eu plant

MAE'N rhy hwyr i osgoi newid hinsawdd dramatig yn ystod y ganrif hon. Ond mae 'na raddau o newidiadau y gellir dylanwadu arnynt gan yr hyn a wnawn, yn enwedig yn ystod y degawd neu ddau nesaf. Gellwch eistedd yn ôl a dweud, o, rydyn ni'n mynd i gael newid hinsawdd ofnadwy a does dim y galla i wneud amdano. Ond os oes plant gan *[y bobl sy'n siarad felly]*, rhaid eu bod yn rhieni eitha' sâl i beidio â phryderu am y math o amgylchiadau y bydd eu plant yn byw ynddynt. Rwy'n credu bod hynny'n sbardun eitha' pwerus i ni wneud cymaint ag y medrwn, o leiaf i ohirio'r effeithiau gwaethaf a dechrau paratoi ein hunain am fywyd ynghanol hinsawdd wedi'i thrawsnewid.

CLIVE HAMILTON, awdur *Requiem for a Species: Why we resist the truth about Climate Change*

GOLYGYDDOL

HYWEL DAVIES

# Fel gyda smygu a chancr, angen derbyn y cyngor am garbon a'r byd



**HANNER canrif yn ôl, gyda chyhoeddiad adroddiad y Coleg Brenhinol Meddygol ar smygu ym 1962, dangoswyd yn hollol glir bod smygu'n achosi cancr.**

Roedd hyn yn gysylltiad oedd wedi cael ei wadu'n sinigaidd ers blynyddoedd gan y diwydiant tybaco pwerus, er iddynt dderbyn prawf gwyddonol amdano. Iddynt hwy, eu helw oedd y peth pwysicaf.

Ar ran y BBC, aeth Christopher Brasher i holi pobl oedd yn smygu ar y stryd yng nghanol Llundain am eu hymateb i'r adroddiad. Er y rhybuddion awdurdodol bod



smygwyr yn marw'n sylweddol yn gynt na phobl nad oedd yn smygu, atebodd pob un a holwyd y byddai'n well ganddynt barhau i fwynhau eu sigarennau.

Ar y pryd, roedd 70% o ddynion y Deyrnas Gyfunol yn smygu a 40% o fenywod. Ble bynnag oeddem, ar wahân i ysgol a chapel, roedd pawb ohonom, yn smygwyr ai peidio, yn hen ac ifanc, yn gorfod anadlu mwg sigarét.

Mae hi wedi cymryd hanner canrif o ymgyrchu i dynnu'r ffigyrau smygu yna i lawr i 21% o ddynion a gwragedd — atal hysbysebu, rhybuddion ar bacedi, a, diolch byth, gwahardd smygu mewn llefydd fel tai bwyta, sinemâu, tai tafarn ac ati.

Bu'n frwydr hir ar hyd y daith yn erbyn y diwydiant tybaco a'u grwpiau cefnogol. Aeth y cwmnïau ymlaen i ehangu'r clefyd smygu a'r dioddef sydd ynghlwm wrtho i wledydd ledled y Ddaear er mwyn cynnal eu helw.

Da iawn y bydd gwaharddiad yn fuan ar arddangos sigarennau mewn archfarchnadoedd ac, o bosib, mynnu cloriau plaen ar bacedi.

Bu farw miliynau, ac mae miliynau'n dal i farw. A hynny am fod corfforaethau hynod ddylanwadol yn defnyddio'u grym i gamarwain pobl.

A dyna sy'n digwydd wrth i gwmnïau ynni carbon grymus wadu'r perygl gwaeth hyd yn oed o gynhesu byd-eang a'r newid hinsawdd sy'n deillio ohono.

Fel gyda thybaco, mae sefydliadau gwyddonol sylweddol a diffuant wedi gwneud y cysylltiad yn gwbl glir rhwng y ffordd y mae dynoliaeth yn byw, gan boeri allyriadau mawr $CO_2$ i'r atmosffer, a'r cynhesu hwnnw.

Yn y rhifyn hwn o'r **Papur Gwyrdd** rydym yn falch i dalu teyrnged i un diwydiannwr, yr Americanwr Ray Anderson, a newidiodd yn llwyr sut roedd ei gwmni anferth yn gweithredu o sylweddoli ei niwed i'r Ddaear (tud 6). Mae cwmnïau eraill, hefyd, yn gwneud eu gorau i dorri ar allyriadau. A rhai llywodraethau yn ogystal, gan gynnwys Llywodraeth Cymru i raddau

Ond mae'r cwmnïau ynni tanwydd ffosil yn tanseilio'r cyfan. Y mae llosgi glo, heb unrhyw system dal a storio carbon (CCS) mewn bodolaeth, yn tyfu'n enfawr. Mae'r cwmnïau olew'n gwthio i'r pegynau iâ i dyllu, er y peryglon am ddamweiniau difrodol i'r amgylchedd. Mae tyllu am nwy siâl yn ehangu ar garlam heb reolaeth arno. Ac mae ein gobeithion adnewyddol yn pylu.

Maes y gad yw maes ynni, gyda'r gwirionedd yn dioddef gan arian mawr y corfforaethau carbon, fel y bu'n wir mor hir gyda thybaco, ac asbestos, a bwydydd afiach.


Felly, canmolwn bobl fel y cyfreithiwr Peter Roderick (tud 5) sy'n gweithio'n dawel a dygn i sicrhau y bydd Cynhadledd Rio ym Mehefin yn deall yr angen i barchu'r Byd. Cawsom ein hadroddiad mawr ni ar beryglon Cynhesu Byd-eang yn 2007 gan y Cenhedloedd Unedig. Peidiwn â bod fel smygwyr Llundain yn 1962, yn gwrthod â newid. Dewiswn Ddaear iach a gweithio drosti.

## 'Pobwyd gan Gredinwyr'

POBYDDION ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd â gweledigaeth ardderchog ydy Jones Organics / Tortoise Bakery. Dyma'i hunan ddisgrifiad a geir ar becynnau eu pasteiod:

**Cwmni bach ydyn ni sy'n cael ein gyrru gan gredoau mawr. Rydyn ni'n credu y dylid gwahardd ffarmio ffatri. Rydyn ni'n credu mewn dulliau crefft, nid cynhyrchu diwydiannol. Rydyn ni'n credu mewn siopau a *delis* bach annibynnol sy'n hyrwyddo bwyd go iawn ynghanol marchnad sy'n gorlifo â bwyd synthetig, rhad.**

Da iawn, Mr Jones a'i Grwban.



## Tipyn o lwch carbon?

YN DDIWEDDAR, cafwyd llythyr yn y Wasg Gymraeg yn cyfeirio at elusen y *Renewable Energy Foundation* fel corff gwyddonol y gellid dibynnu arno am farn gytbwys ar faterion ynni.

Y cyswllt Cymreig oedd bod Cymraes ymhlith yr Ymddiriedolwyr — un a phrofiad hir fel swyddog uchel yn y diwydiant olew a nwy.

Un ffordd o gael syniad o wir natur mudiadau yw trwy holi am eu dechreuadau. Yn achos y *Renewable Energy Foundation*, fe'i sefydlwyd yn 2004 gan y seren deledu gyfoethog Nöel Edmonds fel rhan o'i frwydr yn erbyn cynlluniau am ffarm wynt ger ei gartref yn Nyfnaint. Bu'n gadeirydd am rai blynyddoedd.

Bu'r **Guardian** yn adlewyrchu'r amheuon am yr elusen hon. Yn sicr, mae'r enw wedi codi cwestiynau. Er ei fod yn awgrymu ei bod yn bleidiol i ynni adnewyddol, tanseilio ynni gwynt, yn arbennig, yw byrdwn ei datganiadau. A bu raid i'r Comisiwn Elusennau 'cynnig cyngor' i'r *REF* ar un achlysur oherwydd 'lobïo' gwleidyddol.

Byddai tipyn mwy o onestrwydd yn yr enw o'r cychwyn wedi bod yn help i glirio'r amheuon am eu cymhellion. Ond, ym myd hynod gystadleuol ynni, gydag elw mawr y corfforaethau tanwydd ffosil dan fygythiad, gellir deall y temtasiwn i daflu tipyn bach o lwch carbon i lygaid y cyhoedd.

Ar drothwy Cynhadledd Amgylchedd Rio + 20 — galwadau am rym cyfreithiol



**YN rhifyn Chwefror / Mawrth Y Papur Gwyrdd, clywsom am ymgyrch tîm y fargyfreithwraig Polly Higgins i ffurfio trosedd newydd o Eco-laddiad trwy'r Cenhedloedd Unedig. Ers hynny, bu'n darlithio ledled y byd wrth wthio'r ymgyrch.**



**Y tro hwn, rydym yn falch i gyhoeddi, isod, erthygl gan y bargyfreithiwr Peter Roderick, aelod o *Gynghrair Cenhedloedd y Dyfodol* sy'n ceisio cael gwleidyddion i ddeall bod yna systemau amgylcheddol Daearol sydd rhaid eu gwarchod er lles dynoliaeth.**

# Neges i Gynhadledd Rio newydd — mae ffiniau i'r Ddaear!


Llun: NASA

Gan

PETER RODERICK

**Yn enedigol o Fachynlleth, mae Peter yn fargyfreithiwr lles y cyhoedd. Bu'n gweithio i Shell Oil tan 1991. Ers hynny bu'n gweithio ar lawer o bynciau amgylcheddol gan gynnwys gyda Chyfeillion y Ddaear. Bu'n rhan o'r frwydr i sicrhau Cymru GM Rhydd. Bellach mae'n gweithio i WWF Cymru ar Fesur Datblygiad Cynaladwy'r Cynulliad. Fe yw awdur, *Taking the Longer View: UK Governance Options for a Finite Planet***

**MAE Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygiad Cynaladwy yn Rio de Janeiro ym Mehefin — sydd wedi ei had-drefnu fel na fydd yn taro ar draws Jiwbilî'r Frenhines, os gwelwch yn dda — yn denu llawer o ynni ac ymdrech gan fudiadau NGO ... ond mwy wrth obeithio nag wrth ddisgwyl.**

Ugain mlynedd yn ôl, fe roddodd Rio inni Gonfensiwn Seilwaith y CU ar Newid Hinsawdd a'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth; y tro hwn bydd rhaid inni fodloni gydag anogaeth gan "ddogfen canlyniadau". Mater o drafod yw hi pam y mae hyn — ai am fod llywodraethau'n ofni ymrwymiadau cyfreithiol, neu am iddynt golli hyder mewn effeithiolrwydd cyfraith ryngwladol.

Serch hynny, dyw difrifoldeb y sefyllfa ddim mewn cwestiwn.

Fel dywedodd Maurice Strong - a drefnodd Cynhadledd Stockholm ar Ddatblygiad Dynolryw ym 1972 — yn ei Ddatganiad ar gyfer Achlysur Arbennig Cynulliad Cyffredinol y CU ar Rio+20 ym mis Hydref, "Dyw hi erioed wedi bod mor bwysig i dalu sylw i'r dystiolaeth wyddonol bod amser yn prinhau o ran ein gallu i reoli'n llwyddiannus ein heffeithiau ar y systemau amgylchedd, bioamrywiaeth, adnoddau a chynnal-bywyd y mae bywyd dynol, fel rydym yn ei adnabod, yn dibynnu arnynt ."

## TYNGEDFENNOL

Ond un elfen sydd ar goll o 'ddrafft sero' dogfen ganlyniadau Cynhadledd Rio yw cydnabyddiaeth o'r cysyniad o ffiniau planedol. Mae hwnnw'n datgan bod yna naw o brosesau tyngedfennol o bwysig yn y systemau-Daearol, ynghyd â throthwyon cysylltiedig, bod rhaid i ni eu parchu a chadw'n ddiogel o bell oddi wrthynt er mwyn ymgadw rhag y posibilrwydd o newid amgylcheddol di-droi'n-ôl at raddfa gyfandirol i fyd-eang.

Byddai gwneud hynny'n creu gofod gweithgarwch diogel i ddynolryw, lle bydd cymdeithas gynaladwy a chyfiawn yn bosibl. Yn ôl cysyniadau'r awduron, mae'r ffiniau ar newid hinsawdd, bioamrywiaeth a'r cylch nitrogen eisoes wedi'u croesi.

Mae'r cysyniad yn cynnig sail i Gynhadledd Rio greu fframwaith i'r her o wynebu anghenion y cenedlaethau presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i wynebu eu hanghenion hwy. Dyna pam mae Menter y Ffiniau Planedol wedi cynnig y dylai'r Gynhadledd fabwysiadu Datganiad ar Ffiniau Planedol, neu o leiaf adlewyrchu'n gryf yr egwyddor bod ffiniau'n bodoli, bod rhaid ymrwymo i'w parchu, a derbyn y cyfrifoldeb i wneud hynny.

Yn ogystal â fframwaith, mae angen ymrwymiadau. Dylai Cynhadledd Rio o leiaf sefydlu proses, erbyn cyfnod adolygu Amcanion Datblygu'r Mileniwm yn 2015, i ddatblygu offeryn cyfreithiol i adlewyrchu'r egwyddorion hyn, gan roi'r dasg honno i gorff rhyngwladol aruchel ac uwch-sector. Byddai'r corff hwn hefyd a'r dasg o gyd-lynu ymchwil a datblygiad byd-eang o'n dealltwriaeth o'r prosesau, ac o adolygu digonolrwydd y trefniadau a'r strwythurau cyfreithiol a llywodraethol i'w gwarchod. Dylai gwelliannau cyfreithiol hanfodol ddilyn.

## HAWLIAU

Mae bod yn gyfrifol am warchod y prosesau systemau-Daearol yn golygu sefydlu egwyddorion a chyfrifoldebau cyfreithiol i'w cydnabod a'u parchu. Fel mae Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig wedi dadlau, mae cydnabod yn gyfansoddiadol hawliau cyfartal i amgylchedd iach yn hybu tegwch trwy gael gwared â'r cyfyngiad ar bwy sy'n gallu ei fforddio; ac mae cyfannu'r hawl hon i'r fframwaith cyfreithiol yn gallu effeithio ar flaenoriaethau llywodraethol a dosraniadau adnoddau.

Ond ni ellir edrych ar ffiniau planedol fel pethau ar wahân. Mae traflyncu ar blaned â therfynau iddi, lle mae miliynau yn mynd heb yn ddyddiol, yn gosod cyfrifoldeb gwaelodol ar wledydd datblygedig i arwain trwy aros o fewn y terfynau — yn foesol, ac yn gyfreithiol. Beth bynnag yw'r nodau sy'n deillio o Rio, rhaid iddynt wynebu'r anghyfiawnderau dwfn hyn wrth adlewyrchu realiti bioffiseg ar yr un pryd.

## PATRWM

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau bellach i wneud cyfraniad ar ran Cymru. Yn ogystal â gwneud datblygu cynaladwy yn egwyddor ganolog o drefnu llywodraethol, mae gan Gymru gyfle i fod ymysg y gwledydd cynta'r byd i osod allan proses i gydnabod yn gyfreithiol y prosesau systemau-Daearol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwytnwch y Ddaear ac amgylchedd naturiol Cymru.

Dyw cynnig fframwaith cyfreithiol wedi'i seilio ar y prosesau systemau-Daearol hyn ddim yn golygu bwriad i anwybyddu neu leihau pwysigrwydd llu o ffactorau eraill — economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, seicolegol.

Ond pe bai pobl ddynol yn gallu gweld eu hunain ym mhatrwm pethau, sylweddoli bod ein bywydau'n cychwyn, yn ffynnu neu'n methu, ac yn dod i ben gyda realiti bioffiseg, ac yna'n dechrau adlewyrchu'r realiti hwnnw yn ein cyfreithiau, ni allai hynny ond bod yn beth da.

### CAEREDIN, BELFAST A LLUNDAIN Â PHWERAU YNNI — OND NID CAERDYDD

# Dyffyg hawliau yn rhwystro twf ynni glân Cymru

**MAE pwerau dros gynllunio a chaniatáu pwerdai mawr yng Nghymru wedi'u cadw gan San Steffan.**

Ers 2011, mae'r Comisiwn Cynllunio Isadeiledd (yr IPC) a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn gweithredu'r pwerau hyn. Mae'r pŵer i benderfynu pa daliadau y dylid talu i gynhyrchwyr ynni adnewyddol hefyd yn nwylo San Steffan.

O'r tair gwlad ddatganoledig, Cymru yn unig sydd ddim yn gallu penderfynu ar faterion mor sylfaenol â'n dyfodol ynni, boed yn ynni glan, ynni niwclear neu danwydd ffosil. Ym Melfast a Chaeredin gwneir y penderfyniadau dros Ogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae polisi ynni Llywodraeth Cymru wedi'i ddatgan yn glir yn y ddogfen **Chwyldro Carbon Isel**:

*"Yn seiliedig ar y manteision naturiol sydd gan Gymru mewn meysydd megis ffynonellau adnewyddadwy gwynt a morol, ein nod fydd cynhyrchu hyd at ddwywaith cymaint o drydan bob blwyddyn erbyn 2025 ag yr ydym yn ei ddefnyddio heddiw a hynny mewn ffordd adnewyddadwy, ac erbyn 2050, fan bellaf, bod mewn sefyllfa lle gellir diwallu bron ein holl anghenion ynni lleol, boed ar gyfer gwres, pŵer trydan neu drafnidiaeth cerbydau trwy gynhyrchu trydan carbon isel".*

Ond sut mae Cymru wedi cyflawni ar ein targedau ynni glan? Mae'n werth cymharu perfformiad Cymru â'r Alban **(Tabl, isod)**

Gwelir o'r tabl mai yn 2008 yn unig, ychwanegwyd bron cymaint o ynni adnewyddol i'r grid yn yr Alban ag sy'n bodoli hyd heddiw yng Nghymru.

Erbyn 2010, roedden ni i fod i gynhyrchu 4 TWh o drydan adnewyddol, ond 1.6 TWh yn unig a gynhyrchwyd — methiant o 60%. Yn amlwg, mae'r trefniant presennol yn gadael Cymru ar y cyrion a heb un ffordd o wella'r sefyllfa.

Yn waeth na'r canlyniadau hyn, mae'r diffyg mewn pwerau wedi galluogi Llywodraeth Cymru i feio San Steffan am bob dim. Dyna pam rydyn ni'n gweld Carwyn Jones yn beio San Steffan am ffermydd gwynt yn y Canolbarth, yn eu diolch am atomfa newydd yn Wylfa, ac yn eu beio nhw am bwerdai tanwydd ffosil fel pwerdy Penfro.

**Gan GARETH CLUBB Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru**

A thra bod Llywodraeth Cymru wedi methu ag arwain o ddifrif ar y pwnc hwn, mae grwpiau eraill wedi gweiddi'n groch yn erbyn datblygiadau cynaladwy, gwyrdd.


Rydyn ni'n dechrau gweld paham mae'r pwerau yma mor bwysig. Gyda nhw, cawn drafodaeth ystyrlon ynghylch dyfodol ynni Cymru. Hebddynt, chwedl a myth sy'n ennill y penawdau.

Ond mae rhesymau da eraill dros ddatganoli ynni. Rydyn ni'n gwybod bod mwyafrif pobl Cymru yn llwyr yn erbyn atomfa newydd yn Wylfa — sefyllfa sy'n wahanol i Loegr. Oherwydd hynny, byddai datganoli pwerau yn gorfodi Llywodraeth Cymru i wynebu barn gyhoeddus Cymru.

| Blwyddyn | CYMRU | | YR ALBAN | |
|---|---|---|---|---|
| | Capasiti wedi'i osod (MWe) | Cynydd blynyddol (MWe) | Capasiti wedi'i osod (MWe) | Cynydd blynyddol (MWe) |
| 2003 | 428.5 | - | 1,675.8 | - |
| 2004 | 429.5 | 1.0 | 1,802.3 | 126.5 |
| 2005 | 528.8 | 99.3 | 2,150.6 | 348.3 |
| 2006 | 558.0 | 29.2 | 2,399.1 | 248.5 |
| 2007 | 558.8 | 0.8 | 2,637.5 | 238.4 |
| 2008 | 574.4 | 15.6 | 3,338.6 | 701.1 |
| 2009 | 753.3 | 178.9 | 3,820.4 | 481.8 |
| 2010 | 764.5 | 11.2 | 4,365.1 | 544.7 |

**Tabl: Cymhariaeth o allu cynhyrchu a chynnydd trydan adnewyddol Cymru a'r Alban — gyda Chymru'n syrthio ymhell ar ei hôl hi, gan gynnwys cwymp mawr yn y cynydd o 2009-2010**

## WHITEHALL YN GWTHIO I DYLLU AM NWY



**MAP: Ardaloedd pinc — ble mae DECC yn ymgynghori am drwyddedau drilio ar gyfer nwy siâl yn ne a gogledd Cymru. Ardaloedd melyn — wedi'u trwyddedu'n barod at ddibenion 'archwilio a datblygu'**

Os perswadiwyd Llywodraeth Cymru gan dystiolaeth trychineb Fukushima bod ynni niwclear yn ddiogel, dylai etholwyr Cymru gael y cyfle i benderfynu ai doethineb neu ffwlbri yw'r penderfyniad hwnnw.

Ar hyn o bryd, atomfa newydd a gawn ni gan mai San Steffan sy'n penderfynu — os na fydd pwerau wedi'u datganoli cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Mwy fyth o arian trethdalwyr Cymru i lawr y pydew am ganrif a mwy.

A beth am nwy siâl? Fydd hi ddim yn eich synnu i glywed bod rôl allweddol gyda DECC wrth ganiatáu datblygiadau nwy siâl.

Does fawr o obaith gyda ni yng Nghymru o ddwyn perswâd ar Weinidogion San Steffan na ddylid chwistrellu cemegau sy'n achosi cancr i mewn i'r garreg islaw ein traed.

Ac eto, fe welwn mwy a mwy o Gymru yn cael ei haberthu ar allor y tanwydd ffosil yma wrth i ddarnau o dir gael eu gwerthu i'r sawl sy'n talu mwyaf (map).

Dyna pam bydd Cyfeillion y Ddaear Cymru yn galw'n gyson am ddatganoli pwerau dros ynni.

Gyda'r pwerau hyn, gallwn wynebu'r dyfodol yn hyderus wrth lunio chwyldro diwydiannol gwyrdd.

Hebddynt, byddwn yn aros yn angof gan DECC, yn aros am y briwsion anghynaladwy fydd yn dod — gyda mawr ddiolch gan rai — i'n cyfeiriad. ■

*OES, MAE 'NA GRISTNOGION SY'N GWARCHOD Y DDAEAR ...*

# Gwyddoniaeth a Ffydd ynghyd — eto! — er mwyn y Cread

**MAE traddodiad Cristnogol y Gorllewin, a thraddodiad seciwlar Cyfnod yr Ymoleuo, fel ei gilydd, wedi esbonio perthynas dynoliaeth â'r ddaear fel un o ddominyddu.**

Dynolryw sydd ar frig y Cread, yn ôl y traddodiadau hyn, gyda'r hawl i'w reoli a'i ddefnyddio yn ôl eu dymuniadau.

Roedd rhai â gweledigaeth wahanol, fel Ffransis o Assisi oedd yn sôn am greaduriaid eraill fel brodyr a chwiorydd. Ond ar y cyfan, roedd agweddau'r sefydliadau pwerus Cristnogol yn cefnogi agweddau gwyddonol edrychai ar fyd natur fel gwrthrych, rhywbeth ar wahân i ddynolryw, i'w astudio (hyd yn oed i'w arteithio, yn ôl Francis Bacon) ac ecsploetio er ein lles ni.

Wrth gofio am y perthynas agos, yn hanesyddol, rhwng Cristnogaeth a datblygiad gwyddoniaeth yn y Gorllewin, mae'n rhyfedd meddwl am yr agwedd elyniaethus a geir heddiw gan rai Cristnogion ffwndamentalaidd tuag at ddarganfyddiadau gwyddonol mwy diweddar am natur ein byd.

**Gan DR CHARLOTTE DAVIES**

Ers degawdau, mae'r Ffwndamentalwyr wedi gwrthod esblygiad fel yr esboniad o fywyd ar ein daear. Ond, erbyn hyn, maent wedi troi eu sylw at newid hinsawdd fel y 'Ddraig Werdd' y mae'n rhaid iddynt ei lladd.

Ac wrth iddynt fanteisio ar arian gan y diwydiant tanwydd ffosil, mae eu pwysau'n profi'n effeithiol. Er enghraifft, deddfodd chwe thalaith yn yr Unol Daleithiau i orfodi dysgu 'gwadu newid hinsawdd' yn yr ysgolion.

Cefnodd dealltwriaeth wyddonol ers tro ar yr hen syniad o reoli'r Cread gan bwysleisio yn lle hynny ein rhan yn y systemau naturiol yr ydym yn llwyr ddibynnol arnynt am ein bodolaeth.

Ond mae'r Ffwndamentalwyr yn dal i gyhoeddi bod Duw wedi rhoi dyn ar y ddaear i'w dominyddu gan ecsplotio'i hadnoddau; maent yn gwadu bod pobl â'r gallu i newid yr hinsawdd ac yn honni bod ymgyrchwyr yn erbyn newid hinsawdd yn ceisio tanseilio rhyddid democrataidd a'r grefydd Gristnogol.

Ond, er y sylw a gant gan y cyfryngau, dyw'r Ffwndamentalwyr hyn ddim yn cynrychioli'r unig safbwynt Cristnogol ar newid hinsawdd.

Mae 'na Gristnogion unigol, eglwysi a sefydliadau Cristnogol eraill sy'n ymdrechu i hybu ymwybyddiaeth ynglŷn â newid hinsawdd ac i sbarduno ymdrechion i ymateb iddo. A gwelant yr angen i weithredu fel hyn oherwydd eu hymroddiad Cristnogol i barchu a gwarchod y Cread.

Er enghraifft, mae'r Cymro, Syr John Houghton, a fu'n Athro Ffiseg Atmosfferig yn Rhydychen a chadeirydd Panel Rhynglywodraethol Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, hefyd yn Llywydd ar y *John Ray Initiative*.

Dyma elusen addysgiadol gyda'r nod o 'ddod a dealltwriaethau gwyddonol a Christnogol o'r amgylchedd at ei gilydd'. Botanydd ac offeiriad Cristnogol oedd John Ray (1625 - 1705) a ystyrir gan rai fel 'un o sylfaenwyr gwyddoniaeth fodern.' Mae John Houghton o blaid datblygu diwinyddiaeth Gristnogol o'r amgylchedd sy'n cysylltu'r ysbrydol a'r materol.

A dyna fudiad — a chylchgrawn — Cristnogol *Sojourners* yn America. Mae *Sojourners* yn dod at newid hinsawdd o'u safbwynt Cristnogaeth radical o blaid cyfiawnder cymdeithasol. Maen nhw'n ymgyrchu dros leihau allyriadau carbon a newid y system brynwriaeth sy'n gyrru ein ffordd wastraffus a difrodol o fyw.

Dyna, hefyd, fudiad Cristnogol *Operation Noah*. Cafodd y mudiad hwn ei sefydlu ym Mhrydain yn 2001 gan gymdeithas CEL *(Christian Ecology Link)* fel ymateb i fygythiad newid hinsawdd sy'n peryglu Cread Duw.

Mae'r aelodau'n ymgyrchu dros ddi-garboneiddio economi Prydain erbyn 2030 a thrawsnewid ein ffordd o fyw er mwyn sicrhau dyfodol cynaladwy.

Dewiswyd Noa fel enw i'r mudiad am ei fod ef — yn ôl yr hanes yn yr Hen Destament — yn ŵr dewr oedd wedi dangos arweinyddiaeth pan oedd pawb o'i gwmpas yn gwadu'r peryglon. Gweithredodd Noa i warchod y Cread cyfan, gan gynnig lloches i anifeiliaid, adar ac ati, ac nid dim ond dynoliaeth. Ac, ar ben hynny, mae ei hanes yn un sy'n annog gobaith!

Ar ddechrau'r Grawys eleni, lansiodd *Operation Noah* ddatganiad i herio'r eglwysi Cristnogol i dderbyn bod 'gofal dros Gread Duw — a chonsyrn am newid hinsawdd — yn sylfaenol i'r efengyl Gristnogol ac yn ganolog i'w chenhadaeth'.



Y Cymro Sir John Houghton — Llywydd y John Ray Initiative

Mae'r datganiad a baratowyd gan uned ddiwinyddiaeth y mudiad yn annog pobl i:

- ymfalchïo yn y Cread a llawenhau
- wrando ar wyddonwyr hinsawdd gan gofio bod y rhai sy'n dod â gwirioneddau anghysurus o hyd yn denu 'proffwydi ffals'
- edifarhau am lygru'r ddaear
- dderbyn cyfrifoldeb am les y Cread
- weithredu'n gyfiawn a charu ein cymdogion, gan gofio'r cymunedau tlotaf sy'n dioddef fwyaf o newid hinsawdd
- weithredu â gobaith yng ngallu Duw a gras Iesu Crist

Cafodd y datganiad ei gefnogi gan arweinwyr prif enwadau Cristnogol y Deyrnas Gyfunol — gan gynnwys yr Archesgob Rowan Williams ac Archesgob Cymru Barry Morgan.

Gobaith *Operation Noah* yw y bydd Cristnogion, fel unigolion ac fel eglwysi unigol, yn astudio'r datganiad a'i gefnogi gan fwrw ati o ddifri i weithredu.

**► Ceir adnoddau a syniadau o sut i gymryd camau ymarferol yn yr ymgyrch i warchod ein cartref planedol ar wefan y mudiad, www.operationnoah.org. Ceir llawer o wybodaeth hefyd gan CEL o fynd at www.christian-ecology.org.uk.**

# Maes Gwyrdd yn dod ynghyd — mynnwch air â'r trefnydd



*Coeden Bywyd* — logo hyfryd Maes Gwyrdd yr Eisteddfod Genedlaethol a grewyd gan Jen Delyth. Un o Galiffornia yw Jen, ond mae ei rhieni o ardal Abertawe. Mae'n frwd dros y *West Coast Eisteddfod*!

**MAE Maes Gwyrdd, menter newydd yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg eleni, wedi rhoi eu Cynllun Maes bras cyntaf at ei gilydd ar gyfer awdurdodau'r Eisteddfod.**

Gan NATHAN WILLIAMS Trefnydd

Mae'r criw o wirfoddolwyr sy'n trefnu'r prosiect hefyd yn dechrau cadarnhau manylion yr hyn fydd ar gael ar y 2 - 3 erw o'r prif Faes fydd o dan eu gofal.

Mae galw nawr ar i grefftwyr, chwedleuwyr, cerddorion gwerin, garddwyr (yn enwedig o brosiectau permaddiwylliant), siaradwyr i babell yr e-Coleg ac iachawyr iaith Gymraeg i'r ardal iachau... a mwy! ... gysylltu er mwyn ymuno â'r fenter gyffrous hon.

Mae croeso, hefyd, i stondinwyr masnachol gwyrdd ac elusennau i gymryd rhan a llogi stondin yn yr un modd â phrif Faes yr Eisteddfod. Hefyd, bydd lle i hysbysebu yn rhaglen y Maes Gwyrdd.

Dylai unrhyw rai sydd â diddordeb i gymryd rhan, gwirfoddoli ar y Maes, llogi stondin neu noddi'r prosiect, gysylltu gyda'r trefnydd, Nathan Lewis Williams, ar 07551 498910, e-bost nathan@maesg.org.uk .

Hefyd, cofiwch ymweld â'r wefan www.maesg.org.uk am fwy o fanylion, a newyddion am ddatblygiad y prosiect.

Mae Maes Gwyrdd angen gwirfoddolwyr, cynnwys i'r pebyll ac, wrth gwrs, arian gan noddwyr a stondinwyr yn fuan i gyflawni eu cynlluniau.

Os medrwch helpu neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd, peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

# Colli dau arwr yn ymgyrch y Ddaear

**BRAINT yw nodi cyfraniadau amhrisiadwy dau ŵr at yr ymdrechion i warchod y Ddaear rhag ei difrodi a'i hysbeilio.**

Bu farw'r Cymro Dafydd Dafis, Rhandirmwyn, ym mis Mawrth, a'r Americanwr, Ray Anderson, y llynedd.

Athro a naturiaethwr oedd Dafydd Dafis. Ym 1978, aeth ati i sefydlu'r gymdeithas naturiaeth Gymraeg, Cymdeithas Edward Llwyd. Dyfarnwyd Medal Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol iddo ym 2009. Roedd Dafydd hefyd yn ymgyrchydd. Bu'n rhan o'r gwrthwynebiad i greu argae a llyn Brianne oherwydd y difrod y cai hynny ar fywyd gwyllt ardal brydferth Rhandirmwyn.

Perchennog cwmni teils carped mwya'r byd, InterfaceFLOR, oedd Ray Anderson. Ym 1994, gan fod aelod o'r cyhoedd yn holi am ei agwedd at yr amgylchedd, darllenodd *The Ecology of Commerce* (1993), gan Paul Hawken. Gwelodd Ray fod ei gwmni'n difrodi'r Ddaear trwy ddefnydd cemegolion olew.

Cyhoeddodd mai nod newydd y cwmni fyddai cymryd dim o'r Ddaear nad oedd yn adnewyddol yn naturiol — er yn cadw elw'r cwmni. Daeth yn genhadwr ymhlith busnesau a diwydiannu ledled y byd dros barchu gallu'r Ddaear i'n cynnal at y dyfodol.

# HWYL YR HYDRO YN NHALYBONT

**MAE pentrefwyr egnïol Talybont-ar-Wysg ym Mrycheiniog yn batrwm o sut i dorri ar ddefnydd trydan o danwyddau brwnt fel glo a nwy wrth geisio rheoli newid hinsawdd.**

Maen nhw wedi bod yn creu eu trydan eu hunain trwy dyrbin dŵr ers i Brif Weinidog Cymru ar y pryd, Rhodri Morgan, lansio'r fenter yn 2006.

Gan gynhyrchu 36kWh o drydan, mae menter gymunedol Ynni Talybont-ar-Wysg yn gwerthu'r trydan trwy gwmni llwyr-adnewyddol *Good Energy* o Chippenham. Maen nhw'n buddsoddi'r incwm o ryw £20-25,000 y flwyddyn mewn prosiectau arbed ynni ac wrth hybu ffyrdd o fyw gynaladwy lleol. Codwyd paneli haul, agorwyd darlundy Talybont Fflicks, a chafwyd dau gar — trydan a diesel llysieuol — at ddefnydd y gymuned.

Yn bwysig iawn, mae pobl Talybont yn mynnu eu bod yn cael hwyl wrth fwrw ati gyda'r gwaith.

Y fenter sy'n denu'r sylw ar hyn o bryd yw bygis bach trydan, sef y B-Bugs — Blodwen a Boris oedd y ddau gyntaf. Mae'r rhain yn cael eu llogi gan drigolion ac ymwelwyr i deithio o gwmpas y pentref a Pharc Cenedlaethol Brycheiniog. Fe'u cynlluniwyd a'u hadeiladu yn lleol.

Mae'r cwmni cydweithredol dim-er-elw sy'n gwthio'r fenter wedi dweud wrth **Y Papur Gwyrdd** eu bod nawr yn croesi bysedd y bydd cyhoeddiad o gymorth ariannol ym mis Mai er mwyn iddynt ehangu'r fenter yn




Un o *B-bugs* pentref Talybont — datblygiad hapus arall i brosiect y trydan adnewyddol

sylweddol — gyda lansiad yng Ngwyl y Gelligandryll ym mis Mehefin.

Gan ddefnyddio trydan adnewyddol, mae'r bygis bach yn costio 30c ar gyfer taith o 30-35 milltir. Rhan o'r cynllun yw gosod nifer o ffynonellau trydan pwrpasol ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol er mwyn i ymwelwyr adael eu ceir petrol yn segur gan osgoi achosi allyriadau carbon yn ystod eu hymweliad.

Da iawn, Talybont-ar-Wysg!

► *A gyda llaw, yn y pentref hyfryd hwn y ganed y Fones Mallt Williams, noddwr hael y Blaid Genedlaethol Gymreig yn ei dyddiau cynnar yn y 1920au.*

## Angen ateb gwatwarwyr newid hinsawdd — yn gyhoeddus

MAE nifer y bobl sy'n ceisio tywyllu'r dyfroedd *[ar bwnc cyfraniad dynolryw i newid hinsawdd]* yn fach iawn mewn gwirionedd. Mae nifer y gwyddonwyr a phobl sy'n gwybod yn well o lawer yn fawr iawn. A phe byddai pob un o'r bobl hynny'n mynd ati i wneud un peth cyhoeddus, ai drwy siarad ag ysgol, roi cyfweliad, neu ysgrifennu eitem blog, bydden ni'n goresgyn grymoedd y dryswch yn llwyr.

***Gavin Schmidt, gwyddonydd yn Sefydliad Goddard Nasa ar gyfer Astudiaethau Gofod. Arbenigwr mewn cylchrediad y moroedd a hinsawdd. Sylfaenydd blog RealClimate.***

# Protestwyr v Ynni Glân yn cael y sylw — er perygl y blaned

**RWY'N hoffi tyrbinau gwynt. Maen nhw'n symbolau gosgeiddig o ynni glan sy'n falch i ddatgan ymrwymiad i daclo newid hinsawdd a chreu economi wyrdd.**

Mae holiaduron barn wedi dangos yn gyson bod y mwyafrif o bobl yn rhannu fy hoffter i am y math hwn o ynni adnewyddol.

Ond, wrth i wyddonwyr hinsawdd cyhoeddi daroganau cynyddol bryderus ynghylch chwalfa hinsawdd, mae arolwg diweddar gan ICM/Guardian yn dangos bod gwrthwynebiad i ffermydd gwynt wedi codi o 13% i 27% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod mwyafrif yn dal yn gefnogol.

Mewn rhai ardaloedd, yn arbennig canolbarth Cymru, mae pryderon ynghylch effeithiau mwy o dyrbinau a rhesi newydd o beilonau ar y tirlun wedi sbarduno ymgyrch groch o wrthwynebiad. Mae hyn wedi cael sylw eang yn y cyfryngau, yn sylweddol fwy na'r hyn a roddwyd i amgylchiadau trigolion sy'n byw'n agos at safle glo brig Ffos-y-fran ger Merthyr Tudful neu at lanfeydd LNG yn Aberdaugleddau.

Yn Sir Benfro, ffurfiwyd grŵp *Save our Skyline* mewn ymateb i lond dwrn o gynigion am dyrbinau gwynt ar dirlun a hagrwyd eisoes gan simneiau purfeydd olew sy'n allyrru miliynau o dunelli o garbon deuocsid a gwifrau trydan o bwerdy nwy anferth. Mae'r grŵp yn cyfyngu eu gofid am y tirlun i wrthwynebu un o'r mathau glanaf sydd ar gael o ynni.

Yr hyn nas cafwyd gan lawer o'r ddadl yw ystyriaeth go iawn o'r bygythiad enfawr a olygir gan newid hinsawdd, a'r angen i bawb ohonom dderbyn newid arwyddocaol os ydym i beidio â chyflwyno canlyniadau catastroffig i'n plant a'n wyrion ac wyresau.

Cyhoeddodd yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol (IEA) rybudd bygythiol iawn yn ddiweddar. Hyd yn oed pe bai llywodraethau'n gweithredu'r ymrwymiadau polisi yn llawn, byddai cyfartaledd y tymhered byd-eang, erbyn diwedd y ganrif hon, yn codi o 3.5˚ C yn uwch na lefelau cyn-ddiwydiannol. Derbynnir yn eang mewn trafodaethau rhyngwladol y bydd codiad tymheredd o 2˚C yn ddigon i'n cymryd i sefyllfa beryglus ddi-droi'n-ôl.

Mae hyd yn oed y cynnydd bach hwn bellach yn cael ei ystyried yn ormodol gan rai arbenigwyr. Meddai James Hansen, un o wyddonwyr mwyaf blaenllaw'r byd, "Mae'r ail-ddatgan mor aml o'r angen i gadw cynhesu byd-eang i lai na dwy radd Celsius yn rysáit ar gyfer trychineb byd-eang, nid achubiaeth."

Os methwn a gweithredu ar frys, meddai - "Daw'n anymarferol i gyfyngu carbon deuocsid i lefel hanfodol i gadw'r system hinsawdd rhag croesi pwynt naid i newid hinsawdd drychinebus fydd yn troelli'n ddeinamig allan o reolaeth ddynol."

Erthygl gan
**GORDON JAMES**
Ymgyrchydd Amgylcheddol
*'Angen llawer o esbonio gan wyddonwyr'*



Mae'r ansefydlogrwydd a'r helbul fydd yn effeithio ar ein systemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol os troella'r system hinsawdd allan o reolaeth yn rhy enbyd i'w hystyried. Os methwn â thynnu'n hunain i ffwrdd o danwyddau ffosil gan gofleidio mathau glanach o ynni, rydym mewn perygl o greu'r tebygrwydd brawychus o fyd lle na fydd dyfodol gan ein plant a'n wyrion ac wyresau.

Ymysg pethau eraill, mae'r IEA yn galw am ddyblu gwelliannau effeithlondeb ynni, cynnydd o bum gwaith mewn ynni adnewyddol, a symudiad mawr mewn cymorthdaliadau o danwyddau ynni i rai adnewyddol. Dywedant, yn wahanol i gwynion aml gwrthwynebwyr ynni gwynt, fod tanwyddau ffosil yn derbyn chwe gwaith yn fwy o gymorthdaliadau na systemau ynni adnewyddol.

Byddai symud o danwyddau ffosil at ynni adnewyddol hefyd yn golygu elw trwy'r manteision a geir gan ehangiad cyflym yr economi werdd. Cyhoeddodd llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ddiweddar fod cwmnïau, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi cytuno i fuddsoddi'n agos at £2.5 biliwn mewn prosiectau ynni adnewyddol. Byddai hyn yn creu 11,600 o swyddi, gydag 849 yn dod i Gymru.

Hyd yn oed pe na fyddai gweithredu ynglŷn â newid hinsawdd yn golygu lles economaidd ac yn creu swyddi, mae'r bygythiad hinsawdd ynddo'i hun yn mynnu gweithredu ar frys. Fe ddylen ni fod yn barod, fel petai, am ryfel, yn debyg i 1939, gan dderbyn bod rhaid gwneud newidiadau mawr, rhai na fyddant yn cael eu croesawu.



**Neb yn becso am lo brig brwnt sy'n difetha cymuned a Daear. Tyrbinau glân yw'r bwgan.**

Mae'r ymgynghorydd ynni Neil Crumpton wedi dangos bod ffordd ymlaen ynghanol dadl chwerw melinau gwynt a pheilonau canolbarth Cymru. Yn ei ymateb ar ran Cyfeillion y Ddaear Cymru i ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol ar y peilonau a awgrymir, mae'n ail-ddatgan gwrthwynebiad y grŵp i dyrbinau gwynt yn yr Ardal Chwilio Strategol D, Nant y Moch. Mae hefyd yn dangos y byddai "tanddaearu llawer neu'r cyfan o'r ceblau cyswllt (o ffermwydd gwynt eraill) yn dod yn bosibilrwydd ymarferol" gan y byddai modd gwneud arbedion gwariant.

A fydd y lleihad hwn yn yr effaith ar y tirlun yn ddigon i dawelu'r protestwyr lleol? Na fydd, yn ôl pob tebyg. Mae'n ymddangos bod eu hymgyrch wedi cyrraedd uchafbwynt o wrthwynebiad i unrhyw dyrbinau newydd gael eu codi yng nghanolbarth Cymru.

Mae'r neges sy'n cael ei hanfon gan hyn i ardaloedd tlota'r byd, sydd ar flaen y gad o ran yr eithafon tywydd a achosir gan allyriadau o wledydd diwydiannol fel Cymru, ac i'n plant yn glir. Dydyn ni ddim yn fodlon derbyn unrhyw effaith ar y tirlun wrth geisio lliniaru ar y niwed difrifol a ddaw o ganlyniad i'n ffordd o fyw gysurlawn.

Os dyma sut y bwriadwn ymateb i newid hinsawdd, does fawr o obaith y cawn osgoi'r canlyniadau trychinebus y mae James Hansen yn rhybuddio amdanynt.

Mae **Cyfeillion y Ddaear Cymru** wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.

Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.

**www.cyddcymru.co.uk**
**02920 229 577**

Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

Detholiad mympwyol o weithgareddau cymunedol ledled Cymru



## Trafod Mesur

BYDD sesiwn cyhoeddus yn Noc Penfro ar ddydd Mawrth, Ebrill 17, i esbonio a derbyn adborth ynglŷn â'r Mesur Datblygiad Economaidd Cynaladwy sy'n cael ei ddrafftio gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaladwy Cymru, a George Marshall o'r Rhwydwaith Cenhadu a Mentrau Hinsawdd yn bresennol. Yng Nghanolfan Bridge Innovation (yr hen Technium) rhwng 10 a 3 o'r gloch.

► **Mwy o wybodaeth:** Bettina.becker@pavs.org.uk

## Celf a cherdd

BYDD arddangosfa o waith celf Ieuan Rhys Daniel a barddoniaeth Janet Daniel, *Sori, Dw i Ddim yn Bwyta Pysgod*, sydd eisioes yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, yn parhau hyd Ddydd Gwener, Ebrill 20 (12—7yh).

Mae'r arddangosfa yn ymateb creadigol i sialens newid hinsawdd ac yn ddathliad o fyd natur. Mae mynediad i'r arddangosfa am ddim. Aiff elw gwerthiannau at y teuluoedd a ddioddefodd o ganlyniad i drychineb Glofa'r Gleision.

**HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD**

**Am *Wybodaeth a Chostau Hysbysebu yn* Y Papur Gwyrdd, ebostiwch: ypapurgwyrdd1@ btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn Mai 13 ar gyfer rhifyn Mehefin / Gorffennaf 2012.**

**CROESO I'CH SYNIADAU AR GYFER Y PAPUR GWYRDD**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion, hysbys digwyddiadau a syniadau i'r** Papur Gwyrdd **— erbyn Mai 13 os ar gyfer rhifyn Mehefin / Gorffennaf 2012.**
**Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**




**Os am dro ar lan y môr ynghyd ag ychydig o siopa call, cyfunwch y ddau tra'n ymweld â Phorthcawl. Mae siop *Sussed*, yn 92 John Street, yn hafan hyfryd sy'n cynnig amrywiaeth eang o nwyddau masnach deg, crefftau a chynnyrch lleol, eitemau wedi'u hailgylchi, pethau sy'n gyfeillgar i'r Ddaear, llyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae'n fusnes gydweithredol ac yn ffrwyth i ymdrechion mudiad amgylcheddol Cymru Gynhaliol a leolir ym Mhorthcawl. Oriau agor: Llun i Sadwrn, 9.30yb i 5yp. Cewch groeso.**

## Telynorion

BYDD Cymdeithas Gwenynen Gwent yn cynnal diwrnod *Dwylo ar y Delyn* i hyfforddi telynorion yn y Fenni ar Sadwrn, Ebrill 21, o 10yb - 5yp — ar gyfer dechreuwyr a rhai sydd am wella. Awyrgylch hamddenol yng Nghanolfan San Mihangel, Pen-y-pound. Tiwtoriaid profiadol. Cinio ysgafn. £12 am y dydd (£5 i aelodau); £5 am hanner dydd ac i blant dan 12.

► **Manylion: Gill Madley 01873 812318, gill@madley.org a gwefan www.ladyllanover.org.uk/.**

## Gardd i'r Brifwyl

MAE cynllun ar gerdded i greu gardd yn arbennig ar gyfer Maes Gwyrdd Eisteddfod Bro Morgannwg 2012, ac mae croeso i bawb gyfrannu at y prosiect. Gobaith trefnydd yr ardd, Jill Fach, yw cynnal cyfarfod ar Ddydd Llun, Ebrill 23, i drafod sut i fynd ati. Os hoffech wybod mwy, a chadarnhau trefniadau'r cyfarfod, ffoniwch Jill ar 07884 346373.

**** Mae Jill yn Gymraes ac yn amgylcheddwraig frwd o ogledd ddwyrain Cymru sy'n byw bellach ym Mhorth Tywyn. Mae hi'n adnabyddus fel trefnydd Sadwrn Hadau Shir Gar.*

## Cynhadledd Ynni

BYDD 6ed arddangosfa a chynhadledd cymdeithas Renewable UK Cymru yn cael ei chynnal yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ar Ddydd Mawrth, Mai 2. Disgwylir y bydd dros 200 o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, asiantaethau, buddsoddwyr, datblygwyr ac ati yn bresennol. Bydd stondinau yn yr arddangosfa gan ryw 30 o gwmnïau ynni adnewyddol amrywiol sydd â mentrau yng Nghymru.

► **Gellir cael mwy o wybodaeth trwy wefan: www.renewable-uk.com/ events/cymru-conference.**

## Noson y Beirdd

BYDD enillwyr Cystadleuaeth Farddonol Newid Hinsawdd Awel Aman Tawe yn cael eu hysbysu o'u llwyddiant erbyn mis Mai ac fe gynhelir noson wobrwyo yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, ar nos Wener, Mehefin 8.

Bwriad Awel Aman Tawe yw cyhoeddi'r cerddi buddugol mewn blodeugerdd ac ar eu gwefan

Elusen ynni cymunedol yw Awel Aman Tawe sy'n ymateb i newid hinsawdd, gan gynnwys trwy godi tyrbinau gwynt i'r gymuned leol.

► **Mwy o wybodaeth www.awelamantawe.co.uk a thrwy ffonio 01639 830870**

## Gŵyl Werin

LLAWER o hwyl i garedigion cerddoriaeth werin yng Ngŵyl Werin Tŷ Tredegar, Casnewydd, ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul, Mai 18,19 ac 20. Sefydlwyd yr ŵyl 23 blwyddyn yn ôl i adlewyrchu dawnsfeydd traddodiadol de-ddwyrain Cymru. Amrywiaeth o grwpiau o bell ac agos. Lleoliad hyfryd ger ac yn yr hen blasty.

► **Mwy o fanylion: ar wefan www.tredegarhousefestival.org.uk/**

## Cymru gynaladwy

ESBONNIR mai bwriad Wythnos Cynaladwyedd Cymru, Mai 21 - Mai 27, yw codi'r ymwybyddiaeth gyhoeddus ynglŷn â dyfodol cynaladwy gan ddangos y gwaith sydd ar gerdded eisoes.

Mynnir y bydd 'cannoedd' o ddigwyddiadau ledled Cymru ond, wrth i ni fynd i'r wasg, 'mwy o wybodaeth yn fuan' oedd y neges. Anogir pobl i ymuno, ar hast.

# Y byd a'r aelwyd

**Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'**

## Nid mewn stiwdio teledu ydym!

**MAE rhywun yn cael yr argraff mai'r gwir broblem i'r mudiadau amgylcheddol yw bod cymaint o bobl yn credu ein bod yn byw mewn byd gwneud, byd artiffisial.**

Felly, dyw byd natur, a bywyd gwyllt, a phethau felly ddim ymhlith y pethau sydd o bwys go iawn i'w bywydau, ddim o bwys o gwbl i rai.

O ddifrif, yr argraff a geir wrth sgwrsio ambell waith yw bod llawer ohonom wedi mynd i stad lle rydyn ni'n credu ein bod yn byw mewn rhywbeth fel stiwdio deledu neu ffilm. Yn sicr, nid yn byw'n wyrthiol ar blaned sy'n ein cynnal.

Iddyn nhw, dynoliaeth sydd wrth y llyw. Ydyn, mae pethau'n gallu mynd o le, ond, wel, bydd y Cyfarwyddwr neu'r Rheolwr Stiwdio yn dod â threfn yn ôl yn ddigon rwydd pan ddigwydd hynny.

Roedd neges hollol wahanol ar gael yn ein gardd ni trwy fisoedd Chwefror a Mawrth — ar gael, hynny yw, wrth i ni godi'n golygon i'r wybren gyda'r hwyr.

Yno, roedd y planedau Fenws ac Iau'n pefrio'n wych â'i gilydd. Dyma un o olygfeydd hyfrytaf y flwyddyn, heb angen teithio, na thalu arian mawr, i'w mwynhau.

Nage, roedd angen teithio, mewn gwirionedd. A dyna oedd y neges oedd gan Fenws ac Iau i ni fel dynolryw, ac fel pobl Heol y Ficerdy, Treforys.

Bob nos, roedd y ddwy blaned yn machlud ychydig yn fwy cynnar. A phob nos, roedden nhw fel petai'n closio at ei gilydd. Roedd hynny'n digwydd am fod ein Daear ni, a ninnau arni, gan gynnwys y rhai ohonom sy'n siŵr eu bod mewn stiwdio teledu, ar daith trwy'r gofod o gwmpas yr haul ar gyflymder o 65,000 milltir yr awr gan newid ein perthynas â nhw. A'n Daear hefyd yn troelli.

Neges Fenws ac Iau oedd mai creaduriaid byd natur ydym. Dibynnol hollol ydym ar systemau naturiol sy'n bodoli'n wyrthiol ar ein trydedd blaned o'r haul. Os down allan o'n stiwio teledu, gallwn ddysgu hynny, gan ddeall pa mor bwysig yw gofalu am y Ddaear.

Ond, ydych chi'n cofio pa mor anodd oedd hi yn stori'r athronydd Groegaidd, Plato, i dynnu pobl yr ogofau allan o'u cynefin? Byddent yn mynnu mai'r byd go iawn oedd y cysgodion oedd yn fflachio ar wal eu hogof. A dyna ran o broblem mudiad y Ddaear. Ogof. Stiwdio. Yr un hunan dwyll.

## Yn ein gardd ni, madfallod pia hi

BEIWCH **Y Papur Gwyrdd**, os mynnwch chi, neu ddiogi pur, ond mae pethau ar ei hôl hi yn ein gardd ni eleni.

Craidd y broblem yw diffyg strategaeth ganolog. Mae trafod ingol wedi bod yma o sut i ail-siapio'r ardd er mwyn delio â chysgodion y tŷ wrth geisio codi tŷ gwydr. Ond trafodaethau diffrwyth a fu hyd yn hyn.



Y prif anhawster yw i ni sylweddoli mai'r lleoliad gorau ar gyfer tŷ gwydr yw ble roedd *lean-to* yn erbyn y garej pan symudon ni yma. Roedd yr adeiladwr gwreiddiol yn llygaid ei le. Ond fe chwalon ni'r hen *lean-to* bregus.

Y weledigaeth ar y pryd oedd creu pwll ar gyfer pysgod aur fy nhad. A dyna wnaed. Bellach, trengodd y pysgod. Dim problem i lenwi'r pwll a chodi tŷ gwydr, felly? O oes! O rywle, daeth madfallod i'r pwll. A deallwn eu bod yn rhai prin a bod rhaid gofalu amdanynt.

Felly, aros mae'r madfallod. A dal i drafod y tŷ gwydr ydyn ni!

***Hwyl am y tro — Hywel a Charlotte***



# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

***Pigion amrywiol 2 fis***

### TARA I ATAL YR OLEW?

DRINGODD aelodau Greenpeace ar fwrdd llongau sydd wedi'u llogi gan gwmni Shell fel rhan o'u bwriad i ddechrau tyllu am olew yn yr Arctig. Shell yw'r cwmni olew mawr cyntaf i fynd ati i fentro i ddyfroedd peryglus y pegynau iâ. Mae'r tebygrwydd o ollyngiad olew'n uwch yno oherwydd mynyddoedd iâ, iâ môr, ac amodau tywydd eithafol. Os oes gollyngiad, ofnir y byddai'r canlyniadau'n drychinebus. Mae paratoadau Shell yn cynnwys brwsys a bwcedi ar y ddwy long o'r Ffindir, a chi bach sy'n gallu sniffio olew. Dachsund yw'r ci o'r enw Tara.

### GWRTHOD NIWCLEAR

CYNHALIWYD protestiadau yn erbyn codi atomfeydd newydd yn Wylfa, Ynys Môn, ac yn Hinckley Point yng Ngwlad yr Haf sydd ond 15 milltir o Gaerdydd. Ar Fawrth 11, union flwyddyn wedi trychineb y tsunami a'r ffrwydriadau a chwalodd atomfa Fukushima yn Siapan, daeth tyrfa fawr i leisio gwrthwynebiad i barhau â'r cynllun i godi atomfa newydd Wylfa B. Ofnir nad oes paratodau diogelwch addas ar gyfer pobl yr ynys os digwydd damwain. Mae pryderon mawr, hefyd, ynglŷn â bwriad cwmni Horizon i gadw gwastraff ymbelydrol am o leiaf 160 o flynyddoedd ar y safle. Hefyd ar ddydd cofio Fukushima, gan newid eu polisi, cyhoeddodd Llywodraeth Lafur Cymru eu bod bellach o blaid codi atomfeydd newydd fel Wylfa B.

### 'NA!' I LO TSIEINA

BU degau o filoedd o bobl yn protestio yn erbyn codi pwerdy glo newydd ger dinas Shantou yn nhalaith Guandong yn Tsieina. Eu cwyn oedd bod pwerdai glo eisoes yn llygru'r awyr a'r dŵr yn yr ardal gan achosi salwch. Ers 1980 mae llosgi glo wedi cynyddu o 500% yn Tsieina. Cododd cancr yr ysgyfaint pum gwaith ers 1970 (gyda smygu'n ffactor hefyd). Honnodd Llywodraeth Tsieina eu bod yn gohirio codi'r pwerdy newydd yn wyneb y protest-iadau. Mae gwrthwynebiad i gynlluniau glo yn gyffredin mewn gwlad lle mae miloedd o weithwyr glo yn cael eu lladd mewn damweiniau'n flynyddol.

### CYMORTH ANHEG

DANFONWYD cwyn at Gomisiwn Ewrop gan gyfreithwyr ar ran nifer o grwpiau amgylcheddol ynglŷn â maint y cymorthdaliadau a delir i'r diwydiant niwclear yn y Deyrnas Gyfunol. Meddai Caroline Lucas, AS, arweinydd y Blaid Werdd, "Mae cynllun y Llywodraeth i Ddiwygio'r Farchnad Drydan yn rhwym o wyro'r farchnad o blaid niwclear. *[Byddai hyn yn]* tanseilio'r symudiad at ynni newydd, gwyrdd."

### LLADD ELIFFANTOD

MAE mudiad WWF wedi condemnio llofruddio 200 o eliffantod yng ngwlad Cameroon. Disgrifiodd WWF y digwyddiad fel cyflafan ymysg y gwaethaf i effeithio ar fywyd gwyllt ers amser maith. Y fasnach ifori a chig sy'n cael y bai am y lladd arswydus o greulon. Gofynnwyd i Arlywydd y wlad, Paul Biya, drefnu ymchwiliad trwyadl ar frys i'r weithred droseddol.



**► Mae cynllun i helpu eliffantod gyda WWF**

Mynnwch gwsg
ym mynwes natur






... gan gynnwys
i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

